# Argymhellion i wella cyfathrebu ac ymgysylltu â'r gymuned ffermio ynghylch rheoli a dileu TB yng Nghymru

**Gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu â TB Cymru**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru

Cynnwys gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Ysgrifennwyd a hwyluswyd yr adroddiad gan Dr Lisa Morgans gyda chymorth Dr Laura Palczynski, Innovation for Agriculture

ISBN: 978-1-80364-473-8

# Crynodeb Gweithredol

Mae gwella cyfathrebu ynghylch TB ac ymgysylltu â'r gymuned ffermio yn golygu meithrin ymddiriedaeth. Ymddiriedaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y diwydiant ffermio a'r proffesiwn milfeddygol. Mae meithrin ymddiriedaeth yn cynnwys deialog barhaus, a rhannu profiad a chyfnewid gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut y gall y Llywodraeth gyflawni hyn ac felly gwella ymgysylltiad, ond mae'n rhoi rhybudd amlwg.

*"Mae perygl o fynd o gwmpas mewn cylchoedd..."*
*"Rwyf eisiau i Lywodraeth Cymru wrando. Ystyried yr hyn yr ydym yn ei ddweud a'i argymell... Mae grymuso yn dod trwy wrando."*
Gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Mae grymuso yn golygu rhoi'r awdurdod neu'r pŵer i bobl wneud rhywbeth, yn ogystal â chynyddu hyder i wneud penderfyniadau a rheoli ffactorau ym mywyd rhywun (cymerwyd o Eiriadur Rhydychen). Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i gwneud yn glir, er mwyn i'r gymuned ffermio gael ei grymuso, felly er mwyn i filfeddygon a ffermwyr fod â'r pŵer i fynd i'r afael â TB a bod â'r hyder i wneud penderfyniadau ar brynu gwartheg, difa gwartheg, rheoli bioddiogelwch ar ffermydd, cyfundrefnau profi TB a mesurau atal clefydau, mae angen iddynt fod â gwell mynediad at ddata a'u defnyddio. Er mwyn gwybod beth sy'n achosi haint ar fferm unigol, mae angen amrywiaeth o ddata a dim ond pan gânt eu rhannu a'u trafod y daw hyn yn wybodaeth a dealltwriaeth ddefnyddiol. Mae hyn yn hollbwysig yn cynnwys cydweithio llawer agosach rhwng ffermwyr, eu milfeddygon preifat, Milfeddygon Swyddogol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) fel y gallant weithio gyda'i gilydd i gyfnewid gwybodaeth yn barhaus.

Mae'r diwydiant ffermio wedi gwneud ymdrechion ac aberth enfawr i fynd i'r afael â chlefyd dinistriol TB. Mae hyn yn amlwg drwy gydymffurfio â phrofion gwartheg mynych a chynyddol, cyfyngiadau symud, colli incwm, newidiadau i ddulliau rheoli ffermydd, yn ogystal ag ymgysylltu â mentrau ac astudiaethau'r diwydiant i ddatblygu eu dealltwriaeth ochr yn ochr â gwaith ffermio dydd. Mae'r mwyafrif helaeth o ffermydd wedi bod yn cydymffurfio â gofynion profi statudol ac yn parhau i gydymffurfio â nhw, er bod y diwydiant yn wynebu dyfodol cynyddol ansicr a heriol. Felly pam y tybir bod diffyg ymddiriedaeth mewn diwydiant i wneud penderfyniadau cyfrifol ynghylch rheoli ffermydd? Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r ffyrdd o wella cyfathrebu â diwydiant ynghylch TB yn ogystal â ffyrdd o gynyddu ymgysylltiad ffermwyr a milfeddygon â rheoli a dileu TB yng Nghymru. Mae'n tynnu sylw at sut y gall y Llywodraeth rymuso diwydiant ar unwaith ac mae'n ymwneud yn bennaf â sicrhau bod data ar gael yn rhwydd, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r wybodaeth gywir i wneud gwell penderfyniadau ar y fferm, y gellir eu cefnogi wedyn â gwell rhyngweithio rhwng ffermwyr allweddol a rhanddeiliaid milfeddygol.

Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 21 o aelodau gan gynnwys ffermwyr gwartheg o bob rhan o Gymru, milfeddygon preifat a phartneriaid cyflenwi, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, sefydliadau'r diwydiant ac ymchwilwyr sy'n gweithio ar TB yng Nghymru. O ganlyniad i lawer o gyfweliadau, sgyrsiau a thri gweithdy wedi'u hwyluso rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2022, mae nifer o argymhellion wedi'u cyd-gynhyrchu sy'n cwmpasu cylch gwaith eang gan grŵp amrywiol a phrofiadol o randdeiliaid yn y diwydiant.

Yn ogystal â bod yn dyst i angerdd, cydnerthedd a phrofiad aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, mae'r argymhellion hefyd yn rhoi rheswm i'r diwydiant a'r Llywodraeth fod yn optimistaidd. Mae llawer o gamau y gellir eu cymryd yn y tymor byr i wella'r berthynas rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant ffermio, a fydd yn ei dro yn helpu i fynd i'r afael â TB.

Y <u>pum prif argymhelliad pwysicaf</u> y mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dymuno gweld camau gweithredu arnynt yw:

1. **Mwy o ddata profi TB ar gael yn haws** i ffermwyr a milfeddygon preifat. Bydd hyn yn cyfrannu at benderfyniadau mwy gwybodus a mwy cyfrifol yn y pen draw ynghylch symudiadau gwartheg, rheoli buchesi a bioddiogelwch ffermydd, a fydd i gyd yn cael effaith sylweddol ar reoli TB, yn enwedig os gellir adnabod a chyfyngu ar anifeiliaid risg uwch.

2. Galluogi **ffermwyr, milfeddygon preifat a milfeddygon swyddogol i weithio'n agosach mewn partneriaeth â milfeddygon APHA.** Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno grymuso ffermwyr a milfeddygon i wneud penderfyniadau prydlon a gwybodus ac atal achosion o TB; un ffordd o wneud hynny yw drwy rannu data profion TB. Bydd 'Siop Un Stop' annibynnol ar gyfer data, gwybodaeth, arweiniad a chymorth yn cyfrannu at hyn a bydd yn helpu i liniaru a lleihau achosion o gamwybodaeth a chamsyniadau ar draws y diwydiant.

3. Newidiadau i **fformat, iaith a thôn llythyrau a hysbysiadau** sy'n glanio ar garreg drws ffermwyr, a fydd yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i wella'r berthynas rhwng ffermwyr ac awdurdod.

4. Bydd **adolygiadau o Gylch Gorchwyl y byrddau TB presennol**, yn ogystal ag adolygiadau o fentrau a rhaglenni sy'n bodoli eisoes (e.e. Cymorth TB) yn helpu i wella ymgysylltiad a'r nifer sy'n manteisio ar fentrau presennol/newydd. Adeiladu ar lwyddiant a dechrau prosiectau treialu fel canlyniad penodol gan fyrddau/grwpiau/cynlluniau presennol.

5. **Gweithredu brys ar Fasnachu ar Sail Risg** – neu Brynu Gwybodus – gyda chydweithio trawsffiniol ar **gronfa ddata ganolog, ffynhonnell agored** i gynnwys hanesion profion TB hanfodol a gyda mecanweithiau sy'n galluogi datgelu gwybodaeth berthnasol mewn martiau/arwerthiannau i wneud prynu gwartheg mewn modd gwybodus yn realiti.

Mae llawer o'r materion a drafodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd yn digwydd mewn gwledydd eraill ac maent hefyd wedi'u trafod yn Lloegr ond mewn grwpiau ar wahân a digyswllt. O ystyried nad yw masnach a chlefydau yn cydnabod unrhyw ffiniau, mae angen i'r datgysylltiad hwn newid. Bydd angen i lawer o'r argymhellion gael eu cynnwys a'u cynrychioli gan bob gwlad ddatganoledig, gyda'r potensial ar gyfer swyddogaethau ffurfiol sy'n cysylltu mentrau tebyg ar draws ffiniau. Roedd hefyd yn amlwg pa mor fuddiol fyddai hyfforddiant a chyngor ar gyfathrebu gwyddonol a pholisi i randdeiliaid y Llywodraeth, yn ogystal ag i filfeddygon yn APHA a staff mewn practis milfeddygol. Mae gwella'r broses o drosglwyddo gwybodaeth dechnegol, wyddonol a pholisi i wahanol gynulleidfaoedd yn sail i'r holl gyfathrebu.

Serch hynny, ac yn anad dim, teimlwyd yn frwd yr angen i weithredu yn dilyn yr argymhellion hyn. Er mwyn ymgysylltu'n wirioneddol â'r diwydiant ar ddileu TB a datblygu ymddiriedaeth a pharch ffermwyr a milfeddygon sy'n wynebu realiti llym profion TB a'u canlyniadau, mae angen ystyried newid gwirioneddol o ganlyniad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn ar frys. Os na ddigwydd hyn, bydd y cyfle a ddarperir drwy

sefydlu'r grŵp hwn i adeiladu pontydd a meithrin ymdeimlad o Dîm Cymru yn y frwydr yn erbyn TB, yn cael ei lesteirio'n ddifrifol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn a'i argymhellion yn nodi dechrau taith o'r newydd tuag at ddileu TB, a arweinir gan grŵp a arweinir gan y diwydiant sy'n credu bod newid yn bosibl. Mater i'r Llywodraeth yn awr yw gweithredu a chwarae rhan yn y gwaith o alluogi'r argymhellion hyn i ddigwydd.

*Cyfranogwyr y Grŵp Gorchwyl a Gorffen*

| **Cyfrannydd** | **Maes arbenigedd / lleoliad** |
|---|---|
| Roger Lewis | Ffermwr llaeth / De Cymru |
| Evan Roberts | Ffermwr llaeth / Gogledd Cymru |
| Paul Williams | Ffermwr cig eidion / Gogledd Cymru |
| Sharon Hammond | Ffermwr cig eidion /Canolbarth Cymru |
| Ifan Lloyd | Iechyd Da / De Cymru |
| Brendan Griffin | Milfeddyg preifat / De Cymru |
| Dewi Hughes | Menter a Busnes / Gogledd Cymru |
| - | Milfeddyg preifat / Y Gororau |
| Alan Huxtable | Milfeddyg y Llywodraeth / Cymru |
| Michal Siwonia | Milfeddyg y Llywodraeth / Cymru |
| Amy Smith | Milfeddyg y Llywodraeth / Cymru |
| Dylan Morgan | Undeb / Cymru |
| Tori Morgan | Undeb / Cymru |
| Hazel Wright | Undeb / Cymru |
| Elin Jenkins | Undeb / Cymru |
| Kirsten Hughes | Corff ardoll / Cymru |
| Chris Dodds | Arwerthwr / Cymru a Lloegr |
| Glyn Hewinson | Ymchwilydd / Cymru |
| Richard Pizzey | Ymchwilydd/ Cymru |
| Gareth Enticott | Ymchwilydd / Cymru a Lloegr |

# Rhestr termau

APHA – Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

BCMS – Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain

CoC – Cod Ymddygiad

DEFRA – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

DRF – Ffurflenni Adrodd am Glefydau

EID – Dyfais Adnabod Electronig

FUW – Undeb Amaethwyr Cymru

ibTB – offeryn rhyngweithiol sy'n mapio achosion o dwbercwlosis buchol (bTB) yng Nghymru a Lloegr dros y 10 mlynedd blaenorol

IFN-γ – Prawf gwaed Interferon Gamma Assa

IR – Adweithydd Amhendant

LIP – Rhaglen Gwybodaeth Da Byw

NVL – Dim Anafiadau Gweladwy

NFU – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

OTF – Statws heb TB swyddogol

OV – Milfeddyg Swyddogol

PME – Archwiliad Post Mortem

RBT – Masnachu seiliedig ar Risg

RPW – Taliad Gwledig Cymru

SAM – System TG rheoli TB ar-lein APHA

SICCT – Prawf croen Tuberculin Serfigol Cymharol Intradermal Sengl

T&FG – Grŵp Gorchwyl a Gorffen

TB – *Mycobacterium bovis* neu twbercwlosis mewn gwartheg

ToR – Cylch Gorchwyl